# DIWEDDARIAD GWANWYN 2025

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



LLYW.CYMRU

Cronfa Addington
01926 620 135

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
03000 200 301

Arolwg moch daear marw
0808 169 5110

Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)
0345 050 3456

Llinell Gymorth Rheoli Llygredd Amaethyddol a weithredir gan ADAS
01974 847 000

Sefydliad DPJ
0800 587 4262

EID Cymru
01970 636 959

Cyswllt Ffermio
03456 000 813

Y Rhwydwaith Cymunedau Fferm
03000 111 999

Lantra Cymru
01982 552 646

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
0300 065 3000

Ardystiad Bwyd Cymreig o Ansawdd
01970 636 688

Sefydliad Fuddianol Amaethyddol Frenhinol
0800 188 4444

Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW
0300 062 5004

Llinell Gymorth TB
0800 496 1439

Tir Dewi
0800 121 4722

# DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| 03 MAW – 11 EBR | Grantiau Bach – Effeithiolrwydd |
| 03 MAW – 11 EBR | Grantiau Bach – Creu Coetir – Ffenest 1 |
| 03 MAW – 21 TACH | Grant Creu Coetir |
| 19 MAI – 27 MEH | Grantiau Bach – Creu Coetir – Ffenest 2 |
| 21 MAI – 1 GORFF | Grantiau Bach – yr Amgylchedd |
| 02 MEH – 11 GORFF | Tyfu er mwyn yr Amgylchedd |
| 21 GORFF – 29 AWST | Grantiau Bach – Creu Coetir – Ffenest 3 |

Roedd y wybodaeth yn y Diweddariad Gwanwyn yn gywir o'i ddyddiad cyhoeddi (24 Mawrth 2025). Am y dyddiadau, y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i wefan Llywodraeth Cymru: LLYW.CYMRU.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025
WG51536
ISBN Digidol: 978-1-83715-487-6
ISBN Print: 978-1-83715-486-9

# CYNNWYS



04 TALIADAU GWLEDIG CYMRU
07 CYNLLUNIAU CYMORTH AMAETHYDDOL
08 CYSYLLTIADAU TIR DROS DRO/ CPH DROS DRO (TCPH)?
08 RHEOLIADAU LLYGREDD AMAETHYDDOL
08 STRATEGAETH DDIWYDIANNOL BREN
10 EIDCYMRU
12 IECHYD A LLES ANIFEILIAID
14 PARTNERIAETH DIOGELWCH FFERMYDD CYMRU
15 GWASANAETH CYSYLLTWYR FFERM
17 DEWCH O HYD I NI AR FACEBOOK
18 MATERION GWLEDIG CYMRU
19 CYSWLLT FFERMIO
20 BLE GALLA I GAEL HELP?

# TALIADAU GWLEDIG CYMRU



## Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2025

Mae Llyfryn Rheolau SAF 2025 ar gael ichi ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru. Dylai cwsmeriaid ei ddarllen Rheolau cyn llenwi a chyflwyno SAF 2025.
**llyw.cymru/ffurflen-cais-sengl-2025-llyfryn-rheolau**

Cafodd ffurflen y SAF ei rhoi ar wefan Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein ar 3 Mawrth 2025. Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno cais heb gosb yw dydd Iau 15 Mai, ond gallwch gyflwyno cais hwyr hyd at ddiwedd dydd Llun 9 Mehefin 2025 ond bydd cosb. Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau ar ôl 9 Mehefin 2025.

Rhaid hawlio Cynllun Cynefin Cymru 2025 ar eich SAF.

Byddwch wedi cydymffurfio â gofynion y Cynllun Cynefin ar y parseli rydych yn bwriadu eu hawlio ers 1 Ionawr 2025. Gweler y canllaw yn llyw.cymru/cynllun-cynefin-cymru-2025-llyfryn-rheolau.

Rydym yn annog cwsmeriaid i lenwi eu SAF cyn gynted â phosib. Os oes gennych gwestiwn, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Cwsmeriaid gan ddefnyddio'ch cyfrif RPW Ar-lein neu ffonio 0300 062 5004.

Fel arall, mae'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm (FLS) ar gael i'ch helpu gyda'ch SAF neu'r cynlluniau. Gallwch ddod o hyd i'r manylion i gysylltu â'r FLS ar dudalen 18 neu ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Cymorth Digidol SAF

Rhaid cael apwyntiad i ymweld â'n Swyddfeydd Rhanbarthol. Os oes angen rhagor o help arnoch, yn enwedig i lenwi'r SAF am y tro cyntaf, gall y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid eich helpu dros y ffôn. Gall y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid drefnu apwyntiad 'Cymorth Digidol' i chi, os oes angen, mewn Swyddfa Ranbarthol lle gall aelod o'r staff eich tywys drwy'r broses.

## Trosglwyddo Hawliau BPS 2025

Mae'r ffenest trosglwyddo Hawliau BPS 2025 wedi dechrau ac mae'r ffurflenni trosglwyddo ar gael trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein.

Gall gwerth yr hawliau a ddangosir ar eich cyfrif RPW Ar-lein newid i adlewyrchu gwerth yr hawliau na chawsant eu hawlio a chyllideb y Gronfa Genedlaethol na chafodd ei rhannu yn 2024. Bydd unrhyw gynnydd yng ngwerth hawliau 2025 ond yn berthnasol yn 2025.

Rhaid i gwsmeriaid gyflwyno'r ffurflen Trosglwyddo Hawliau cyn hanner nos ar 15 Mai 2025 er mwyn i'r hawliau fod ar gael i'w hawlio yn BPS 2025.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod datblygu cynigion ar gyfer newid o'r BPS i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o 2026. O ganlyniad, bydd cyfnod trosglwyddo hawliau'r BPS yn cau ar ôl 15 Mai 2025 nes y bydd Gweinidogion Cymru wedi penderfynu ar drefniadau trosglwyddo a lesio hawliau BPS ar gyfer blwyddyn cynllun 2026 a thu hwnt.

**llyw.cymru/cynllun-y-taliad-sylfaenol-canllawiau-ar-drosglwyddo-hawliau**

## RPW Ar-lein – One Login GOV.UK

Mae'r drefn ar gyfer gweld eich cyfrif RPW Ar-lein yn newid. Byddwn yn cael gwared ar wasanaeth presennol Porth y Llywodraeth ac yn creu gwasanaeth One Login GOV.UK newydd yn ei le yn 2025.

Bydd y newid hwn yn gwneud y system yn fwy diogel ac yn ei gwneud hi'n bosib ychwanegu nodweddion newydd i RPW Ar-lein a chefnogi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd.

O 27 Chwefror 2025 ymlaen, byddwn yn gwahodd defnyddwyr RPW Ar-lein, fesul grŵp, i symud i wasanaeth newydd One Login GOV.UK. Bydd ei gwneud hi fel hyn yn gwneud yn siŵr bod digon o help a chyngor yn ein Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid i'ch helpu.

Byddwn am weld ein holl gwsmeriaid yn defnyddio One Login GOV.UK erbyn diwedd y flwyddyn a'r bwriad yw cau gwasanaeth Porth y Llywodraeth ar 31 Rhagfyr 2025.

Byddwn yn eich gwahodd trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein pan fydd yn amser i chi symud i One Login GOV.UK. Dyma'r amserlen:

**Cwsmeriaid heblaw rhai'r Ffurflen Gais Sengl (SAF):** Bydd y gwahoddiadau'n dechrau o 3 Mawrth 2025 ymlaen

**Cwsmeriaid SAF:** Bydd y gwahoddiadau'n dechrau o 16 Mai 2025, ar ôl dyddiad cau'r SAF

**Asiantau Trydydd Parti ac Undebau Ffermio:** Bydd y gwahoddiadau'n dechrau o 20 Mehefin 2025 ymlaen

## Newidiadau i dudalen lanio RPW Ar-lein

O 27 Chwefror 2025 byddwch yn gweld tudalen lanio newydd pan fyddwch yn mynd i'ch cyfrif RPW Ar-lein. Bydd y dudalen newydd hon yn rhoi'r dewis i chi:

- fewngofnodi ar RPW Ar-lein gan ddefnyddio Porth y Llywodraeth, neu
- fewngofnodi neu gofrestru gan ddefnyddio One Login GOV.UK.

**Os na fyddwch wedi cael gwahoddiad i symud i wasanaeth One Login GOV.UK, mewngofnodwch trwy Borth y Llywodraeth fel arfer.**

### Cwsmeriaid SAF

Os gwnaethoch chi gyflwyno Ffurflen Gais Sengl 2024, daliwch ati i fewngofnodi ar RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth. Ni fyddwch yn cael eich gwahodd i symud i One Login GOV.UK tan ar ôl dyddiad cau SAF 2025, sef 15 Mai 2025.

### Beth y mae angen ifi ei ystyried cyn symud?

Bydd angen eu cyfrif One Login GOV.UK eu hunain ar bawb sydd wedi'i gofrestru ar eich **CRN** ac a fydd angen gallu gweld eich cyfrif RPW Ar-lein.

Er mwyn creu cyfrif One Login GOV.UK bydd angen ei gyfeiriad e-bost ei hunan ar bob unigolyn.

### Hawlwyr newydd

Bydd yn rhaid i hawlwyr newydd sydd heb gofrestru gyda RPW eto gofrestru gyda gwasanaeth One Login GOV.UK cyn cofrestru gyda RPW Ar-lein. Gweler y canllawiau ar gyfer Cofrestru gyda RPW Ar-lein.

**llyw.cymru/cynllun-y-taliad-sylfaenol-canllawiau-ar-drosglwyddo-hawliau**

### Trawsgydymffurfio – 2025

Mae'r rhan fwyaf o'r rheolau Trawsgydymffurfio yn aros fel yr oedden nhw yn 2024. Fodd bynnag, mae rhai taflenni ffeithiau wedi'u diweddaru ar gyfer 2025 oherwydd newidiadau yn y gofynion ac arfer da ac i wneud y geiriad yn gliriach. Bu rhai newidiadau hefyd i Safonau Dilysadwy Trawsgydymffurfio 2025 sy'n ymdrin â chategoreiddio achosion o dorri Amodau Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) a Gofynion Rheoli Statudol (SMR).

Dylech gadw golwg reolaidd ar y rheoliadau Trawsgydymffurfio.





# CYNLLUNIAU CYMORTH AMAETHYDDOL

### Grantiau Bach - Effeithlonrwydd

Mae'r cynllun Grantiau Bach – Effeithlonrwydd yn gynllun cyfalaf sydd wedi'i gynllunio i helpu ffermwyr yng Nghymru i wella perfformiad technegol, ariannol ac amgylcheddol eu busnesau fferm.

Mae'r cyfnod ymgeisio wedi agor ar y 3 Mawrth 2025 ac yn cau ar 11 Ebrill 2025.

Y grant mwyaf a delir yw **£15,000 a'r grant lleiaf yw £1,000.** Gellir defnyddio'r grant i gyfrannu hyd at 40% o werth buddsoddiad cyfalaf mewn cyfarpar a pheiriannau (heb gynnwys TAW), sy'n dod â manteision clir a mesuradwy i fusnes fferm.

Ni fydd cymryd rhan yn rowndiau blaenorol y cynllun **Grantiau Bach – Effeithlonrwydd** yn effeithio ar eich gallu i wneud cais am yr uchafswm grant o £15,000. (Gall pob ymgeisydd cymwys wneud cais am yr uchafswm o £15,000)

### Grantiau Bach – Amgylchedd

Mae Grantiau Bach – Amgylchedd yn neilltuo hyd at £7,500 o gyllid fesul ffenest i gynnal Prosiectau Gwaith Cyfalaf. Mae rhestrau o'r Gwaith Cyfalaf ar gael i'ch helpu i sicrhau canlyniadau er lles yr amgylchedd.

Bydd ffenestr ymgeisio nesaf y Cynllun Grantiau Bach – Amgylchedd yn agor 21 Mai 2025 ac yn cau ar 1 Gorffennaf 2025. Thema'r ffenestr hon fydd **Dŵr.**



Y bwriad yw agor ffenestr arall ar gyfer ymgeisio i'r cynllun Grantiau Bach – Amgylchedd nes ymlaen eleni o dan y thema **Carbon.**

### Tyfu ar gyfer yr Amgylchedd (Hau yn yr Hydref)

Yn cefnogi sefydlu cnwd gorchudd heb ei chwistrellu ar ôl cynaeafu ŷd neu indian-corn yn yr hydref lle mae pridd, ar ôl cynaeafu, fel arfer yn cael ei adael yn noeth neu'n sofl. Mae grant o hyd at **£5,000** ar gael ar gyfer cnydau cymwys.

Bydd y ffenest ymgeisio yn agor ar 7 Mehefin 2025 ac yn cau ar 11 Gorffennaf 2025.

### Dyddiadau Allweddol Cynlluniau Cymorth Amaethyddol

I weld dyddiadau ymgeisio pob un o'r cynlluniau cymorth amaethyddol, ewch i: **llyw.cymru/cynlluniau-gwledig-dyddiadau-ymgeisio**


I weld canllawiau pob un o'r Cynlluniau Cymorth Amaethyddol, ewch i: **llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig**

# CYSYLLTIADAU TIR DROS DRO (TLA) CPH DROS DRO (TCPH)

Rhaid i geidwaid sy'n cael tir yng Nghymru i gadw da byw arno am gyfnod dros dro (e.e. pori yn yr haf/tacio) wneud cais am naill ai tCPH neu TLA drwy eu cyfrif Rheoli Fy CPH ar RPW Ar-lein, neu drwy gysylltu â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW – 0300 062 5004.

Er mwyn deall y gwahaniaeth rhwng tCPH a TLA ac i sicrhau eich bod yn eu defnyddio'n gywir, darllenwch a dysgwch y canllawiau rheolau CPH a Da Byw.

**llyw.cymru/rhifau-adnabod-daliadau-cph-symudiadau-da-byw-canllaw-newydd**




# RHEOLIADAU LLYGREDD AMAETHYDDOL

Mae'r Adolygiad o Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) dan gadeiryddiaeth Dr Susannah Bolton I fod gael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth yn dilyn cyfnod o ymgysylltu eang â rhanddeiliaid dros y gaeaf. Bydd rhagor o wybodaeth a'r adolygiad ei hun yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

# Y STRATEGAETH DDIWYDIANNOL AR GYFER PREN

**Rydym am glywed eich barn ar ein cynigion ar gyfer Strategaeth Ddiwydiannol Pren gyntaf Cymru.**

Mae'r diwydiant pren yng Nghymru yn rhan werthfawr a hen o'n heconomi wledig ac mae rhan bwysig iawn gan bren i'w chwarae yn nyfodol amgylcheddol ac economaidd Cymru.

Mae ffermwyr yn allweddol i lwyddiant diwydiant pren llewyrchus yng Nghymru. Yn ogystal â chreu coetiroedd, mae'n hanfodol hefyd cynnal ein coetiroedd presennol. Ceir coetiroedd llydanddail a choetiroedd fferm helaeth yng Nghymru ar hyn o bryd nad ydynt yn cael eu rheoli. Er nad yw'r coetiroedd hyn i gyd yn addas i'w rheoli ar gyfer y farchnad, maent gyda'i gilydd yn cynnig cyfle da i gynhyrchu mwy o bren defnyddiadwy mewn ymateb i'r cynnydd yn y galw, a thrwy hynny helpu i ddatblygu'r busnesau llai hyn.

**Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi'r chwe blaenoriaeth isod:**

1. Cynyddu'r cyflenwad o bren
2. Gwneud ein coedwigoedd yn wytnach
3. Defnyddio Adnoddau'n fwy Effeithiol a'r Economi Gylchol
4. Magu hyder yn y galw
5. Datblygu capasiti'r sector
6. Seilir hyn oll ar newid ymddygiad

Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn elfen allweddol o'n cynnig i greu coetiroedd. Mae hynny'n gyfle hollbwysig i ffermwyr weithio gyda choed a'u hintegreiddio ar eu ffermydd mewn ffordd sy'n eu siwtio nhw er lles da byw, natur ac i arallgyfeirio busnes gan gynnwys trwy incwm pren.

Rydym am weld mwy o'r pren defnyddiadwy sy'n cael ei dyfu yng nghoetiroedd Cymru'n cael ei gynaeafu, a mwy o werth yn cael ei ychwanegu ato wrth ei brosesu. Rydym am weld mwy o farchnadoedd, yn enwedig rhai lleol, yn cael eu datblygu ar gyfer cynhyrchion pren a di-bren coetiroedd fferm a systemau coed-amaethu.

*Mae Cyswllt Ffermio yn darparu cyngor ac arweiniad ar goetiroedd a choed ar y fferm gan gynnwys sut i ddod â choetiroedd sefydledig yn ôl yn ased gweithredol yn ogystal ag opsiynau i greu coetir ac amaeth-goedwigaeth y gellir eu hintegreiddio i fusnes y fferm.*

*Fferm sy'n elwa o gyngor ar sut i reoli a chynaeafu pren yw Fferm Glyn Arthur yn Sir Ddinbych, lle mae Geraint Jones, Arbenigwr Coetir Cyswllt Ffermio, yn gweithio gyda Sarah a'i thad David i ddatblygu rhaglen rheoli coetir o goedwigaeth gorchudd parhaus, a fydd yn darparu refeniw o'r coetiroedd yn ogystal â darparu gwerth ecolegol amrywiol ac uchel i'r tir.*

Mae gwir botensial i Gymru gynyddu ac ychwanegu at werth y pren rydym yn ei dyfu yma. Mae'r Ymgynghoriad ar Strategaeth Ddiwydiannol Pren yn cau **16 Ebrill 2025**

I ymateb i'r ymgynghoriad, ewch i **llyw.cymru/y-strategaeth-ddiwydiannol**-ar-gyfer-pren a llenwch y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad yng nghefn y ddogfen Ymgynghori ac e-bostiwch eich ymateb i Pren.Timber@gov.wales



# EIDCYMRU

## Manteisio i'r eithaf ar eich cyfrif EIDCymru

| | |
|---|---|
| 1 | **Creu** symudiad |
| 2 | **Cadarnhau** symudiad – dim angen stamp |
| 3 | **Cywirdeb** cofnod pob symudiad |
| 4 | **Cydymffurfio** – helpu i baratoi ar gyfer arolygiad |
| 5 | **Cwblhau'r** Stocrestr Flynyddol |

Un fantais o gofrestru gydag EIDCymru yw gallu gwirio a chadarnhau symudiadau eich Defaid a Geifr. Mewngofnodwch i'ch cyfrif EIDCymru gan ddefnyddio'ch enw defnyddiwr unigryw neu gyfeiriad e-bost a chyfrinair. Ar ôl mewngofnodi byddwch yn gweld dangosfwrdd.

### 1. Creu symudiad

Dewiswch 'Creu symudiad fydd yn digwydd yn y dyfodol'. Gallwch greu symudiad 3 diwrnod ymlaen llaw.


Os ydych chi'n dychwelyd anifeiliaid o'r tac, gallwch ddewis y symudiad gwreiddiol a'i ddefnyddio i greu'r symudiad newydd gan ddefnyddio'r swyddogaeth "ymlaen/dychwelyd."

### 2. Cadarnhau symudiad

Dewiswch 'Derbyn Symudiadau' i dderbyn symudiadau i'ch daliad. Pan fyddwch yn derbyn y symudiad ar eich cyfrif EIDCymru, nid oes angen i chi anfon y drwydded bapur i EIDCymru.

Gwirio bod pob symudiad yn gywir.

Dewiswch 'Cofnodion Symud' i weld symudiadau anifeiliaid. Gallwch wirio pob symudiad yn eich cofnod diadell yn erbyn y cofnodion a gedwir ar EIDCymru.




### 3. Cydymffurfio – helpu i baratoi ar gyfer arolygiad

Drwy ddewis symudiad unigol, gallwch weld yr holl fanylion a rhifau tag clust. Gellir holi ynghylch unrhyw anghysondebau gan ddefnyddio'r botymau symud a darparu rhesymau yn y blwch testun.

### 4. Cwblhau'r Stocrestr Flynyddol

I weld eich ffurflenni Stocrestr Flynyddol ar gyfer Defaid a Geifr, cliciwch ar 'Fy Stocrestr' ar frig y dangosfwrdd. Dylai'r ffigurau hyn gyd-fynd â manylion y Stocrestr Flynyddol yn eich cofnod diadell.

### 5. Sicrhau bod eich manylion yn gywir ac yn gyfredol

I weld eich manylion, cliciwch ar 'Fy nghyfrif' i wneud unrhyw newidiadau a chlicio ar ddiweddaru. Mae'n bwysig bod eich manylion yn cael eu diweddaru fel y gallwn gysylltu â chi gyda diweddariadau pwysig.

### Help a Chymorth

Os hoffech chi gael help a chefnogaeth i ddefnyddio'ch cyfrif EIDCymru, neu os hoffech gael help i gofrestru ar gyfer un, cysylltwch ag EIDCymru ar 01970 636959 neu drwy e-bost contact@eidcymru.org



# IECHYD A LLES ANIFEILIAID



## Trefniadau Llywodraethu Bwrdd y Rhaglen Dileu TB

Mae'r trefniadau llywodraethu a nodir yn y Cynllun Cyflawni Dileu TB bellach ar waith. Cyfarfu Bwrdd y Rhaglen, sy'n cynnwys aelodau a benodwyd yn gyhoeddus gan gynnwys ffermwyr, milfeddygon a chynrychiolwyr undeb, am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr. Rôl y Bwrdd yw darparu cyngor strategol ar TB buchol i'r Prif Swyddog Milfeddygol a'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

Ddydd Iau 23 Ionawr, cyfarfu Bwrdd y Rhaglen â'r Grŵp Cynghori Technegol ar TB Buchol yng Nghaerdydd. Roedd yn gyfarfod llwyddiannus a dyma'r tro cyntaf i'r ddau grŵp ddod ynghyd. Roedd y diwrnod hefyd yn addysgiadol, gyda chyflwyniadau gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn tynnu sylw at dystiolaeth gefndir a data, gan gynnwys cymariaethau o ddata ynghylch TB yng Nghymru a Lloegr. Mae Bwrdd y Rhaglen a'r Grŵp Cynghori Technegol wedi dechrau gweithio ar flaengynllun gwaith a fydd ar gael unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

## Geidwaid adar – Ydych chi'n gwybod sut i atal ffliw adar yn eich adar?

Bydd ceidwaid adar ledled y wlad yn ymwybodol bod y DU wedi profi nifer o achosion o ffliw adar y gaeaf hwn. Gan weithio gyda'r diwydiant, rydym wedi cyflwyno mesurau ataliol fel mesurau bioddiogelwch gwell gorfodol, a gwaharddiadau ar gynulliadau o adar i atal trosglwyddo'r clefyd i adar a gedwir yng Nghymru.

Am y wybodaeth ddiweddaraf ac i weld pa fesurau sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd, ewch i'n gwefan yn **llyw.cymru/ffliw-adar**

Er bod Parth Atal Ffliw Adar (AIPZ) ar waith, mae'n orfodol i geidwaid adar gwblhau rhestr wirio hunanasesu bioddiogelwch, a dylent weithredu ar unrhyw ddiffygion bioddiogelwch a nodwyd. Gellir dod o hyd i'r hunanasesiad yn **llyw.cymru/bioddiogewch-ac-atal-afiechyd-mewn-dofednod-ac-adar-caeth**

Rhaid i bob ceidwad hefyd gofrestru eu hadar gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), mae hyn bellach yn ofyniad gorfodol. Trwy gofrestru, byddwch yn ein helpu i reoli achosion posibl o glefydau, fel ffliw adar, a chyfyngu'r ymlediad. Pan fyddwch wedi cofrestru, byddwch yn derbyn gwybodaeth bwysig am sefyllfa ddiweddaraf y clefyd a'r camau bioddiogelwch diweddaraf i'ch helpu i amddiffyn eich haid.

Bioddiogelwch rhagorol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o amddiffyn ein hadar. Gall cadw adar dan do hefyd helpu i'w hamddiffyn rhag ffliw adar, ond dim ond ar y cyd â safonau uchel o fioddiogelwch drwy gydol y flwyddyn.

Yn olaf, os ydych yn amau y gallai eich adar fod wedi eu heintio â ffliw adar, **rhaid** ichi roi gwybod i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar 0300 303 8268.



# MAE EICH FFERM YN DIBYNNU ARNOCH CHI: ARHOSWCH YN DDIOGEL

## Gall damwain gyda ATV newid eich bywyd am byth.

Gall ATV fod yn hynod beryglus. Gall damweiniau yn ymwneud â'r cerbydau hyn arwain at ganlyniadau difrifol, gan arwain yn aml at anafiadau sy'n newid bywyd neu hyd yn oed farwolaethau.

Er mwyn lleihau'r risg o ddamwweiniau gyda ATV, mae'n hanfodol eich bod yn:

- **Gwisgo offer diogelwch priodol:** Gall helmed, esgidiau a dillad gwarchodol helpu i leihau pa mor ddifrifol yw anafiadau.
- **Cael hyfforddiant priodol:** Mae deall sut i weithredu ATV yn ddiogel yn hollbwysig.
- **Dilyn canllawiau'r gwneuthurwr:** Dylech gadw at gyfyngiadau pwysau ac oedran yr ATV.
- **Teithiwch yn gyfrifol:** Dylech osgoi tirwedd beryglus, cyflymder gormodol a ni ddylech fynd ar y beic o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.

PARTNERIAETH DIOGELWCH AR FFERMYDD CYMRU
WALES FARM SAFETY PARTNERSHIP


Cydweithio i wneud ffermio'n ddiogel

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

SGILIAU A HYFFORDDIANT
SKILLS AND TRAINING

# CYLLID SGILIAU CYSWLLT FFERMIO



Cyfle i unigolion i ymgeisio am gyllid tuag at gwrs hyfforddiant byr wedi ei achredu

- Rhoddir cymorth ariannol hyd at **80%** ar gyfer pob cwrs hyfforddi i unigolion sydd wedi cofrestru
- Mwy na **120 o gyrsiau** ar gael
- Rhwydwaith o **ddarparwyr hyfforddiant a gymeradwywyd** trwy Gymru

## YMGEISIWCH NAWR!

*I gael rhestr lawn o'r holl hyfforddiant ewch i'r gwefan, fel arall cysylltwch â Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio neu eich swyddog datblygu lleol.*

Swyddog Datblygu Lleol | llyw.cymru/cyswlltffermio | 03456 000 813
*Rydym yn croesawu galwadau'n Gymraeg*



OLYNIAETH SUCCESSION

# Cymorth gyda Chynllunio Olyniaeth gan CYSWLLT FFERMIO

## Cam 1

**ADOLYGIAD OLYNIAETH**

Cymryd stoc o'ch asedau a deall eich sefyllfa dreth bresennol gyda chyfreithiwr cymwys.

CYMHWYSEDD: *Pob busnes yn gymwys. Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer perchnogion fferm sy'n berchen ar yr asedau. Gallai'r asedau hynny gynnwys tir, da byw, peiriannau neu asedau arallgyfeirio. Gellir adolygu ystâd hyd at 2 unigolyn.*

## Cam 2 (os oes angen)

**CYFARFODYDD I'R TEULU AR OLYNIAETH (wedi'u hwyluso)**

Cyfarfodydd a hwylusir gyda phob aelod o'r teulu i ddeall dymuniadau a bwriadau pob unigolyn. Dyw hyn ddim yn cynnwys unrhyw gyngor cyfreithiol neu fusnes. Mae'n cynnwys paratoi cofnodion a phwyntiau gweithredu'r cyfarfod.

## Cam 2

**CYNLLUN OLYNIAETH**

Datblygu cynllun olyniaeth cynhwysfawr fel rhan o Wasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio, gyda chyllid o hyd at £1400* ar gael.

Cymhwysedd: *Mae'n rhaid bod busnesau wedi cael Adolygiad Olyniaeth (Cam 1) sy'n nodi'r angen i weithredu ymhellach. *Mae'r cyllid sydd ar gael yn amodol ar ddyraniad 'Gwasanaeth Cynghori' pob busnes.*

## Cam 3

**GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

Cyngor / gwasanaethau cyfreithiol i weithredu'r cynllun olyniaeth. Mae hyn yn gallu cynnwys drafftio cytundebau partneriaeth newydd, ewyllysiau, atwrneiaeth a throsglwyddo asedau.

*Cyfraniad o hyd at £500 fesul busnes ar ôl cwblhau Cam 1. Mae £500 arall ar gael i fusnesau sydd wedi cwblhau Cam 2. Mae cyfanswm cost y gwaith yn gallu bod yn fwy na hyn a rhaid cytuno ar unrhyw gyfraniad preifat cyn i'r gwaith ddechrau.*

*Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu lleol, neu ffoniwch y Ganolfan Wasanaeth.*

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

**03456 000 813**
*Rydyn ni'n croesawu galwadau'n Gymraeg*
**llyw.cymru/cyswlltffermio**

FARMING connect cyswllt FFERMIO

# DEWCH O HYD I NI AR FACEBOOK

Gallwch nawr ein dilyn am newyddion a diweddariadau rheolaidd ar bynciau sy'n ymwneud â materion gwledig ar ein tudalen Facebook newydd sbon. Chwilio am Cymru Wledig / Rural Wales ar Facebook **facebook.com/cymruwledig**.

# Gwlad

Gallwch hefyd gofrestru i dderbyn ein e-gylchlythyr materion gwledig misol Gwlad drwy ymweld â:

**llyw.cymru/subscribe/announcements**



# Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm

Gwasanaeth cymorth wedi'i ariannu'n llawn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydym yn rhoi arweiniad i gwsmeriaid mewn perthynas â holl feysydd polisi ynghyd a cynlluniau ffarmwriaeth a gwledig a weinyddir gan Lywodraeth Cymru



## Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â:

### CYMRU GYFAN

**Rita Jones**
07971 048619
rita.jones@gov.wales

### DE-DDWYRAIN CYRMU

**Jane Walters**
07721 894875
jane.walters@gov.wales

**Caitlin Harley**
07890 663351
Caitlin.harley@gov.wales

### DE-ORLLEWIN

**Catrin Jones**
07968 159637
catrin.jones3@gov.wales

**Caitlin Harley**
07890 663351
Caitlin.harley@gov.wales

### GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

**Armando Morgan**
07774 950639
armando.morgan@gov.wales

### GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU

**Janet Phillips**
07774 950654
janet.phillips@gov.wales

### CANOLBARTH CYMRU

**Steve Meredith**
07721 894873
stephen.meredith@gov.wales

**Eve Bridgewater**
07721 894869
eve.bridgewater@gov.wales

**Jane Walters**
07721 894875
jane.walters@gov.wales

FLS
Tîm Cysylltwyr Fferm
Farm Liaison Service



# MATERION GWLEDIG CYMRU

MWC / RAW

Mae Materion Gwledig Cymru (Rhwydwaith Gwledig Cymru gynt) yn rhan o Is-adran Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, yn annog ac yn hyrwyddo datblygu gwledig drwy rannu gwybodaeth, newyddion, syniadau ac arfer da. Rydym yn gweithio gyda, ac ar gyfer, unrhyw un sy'n byw, yn gweithio neu sydd â diddordeb yng Nghymru Wledig.

Bydd rhagor o fanylion ar gael drwy'r sianeli canlynol a restrir isod.


**facebook.com/WalesRuralNet**

**@WalesRuralNet**

**rhwydwaithgwledig_ruralnetwork (@rgc_wrn)**
**(Instagram photos and videos)**

**busnescymru.llyw.cymru/materiongwledigcymru/**

Cysylltwch â ni ar unrhyw adeg drwy e-bost **Ruralnetwork@gov.wales** neu drwy unrhyw un o'r sianeli a restrir uchod. Byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl.



# BLE ALLA I GAEL HELP?

## CYSYLLTWCH Â NI

**FARMWELL CYMRU**
www.farmwell.cymru

**CYSWLLT FFERMIO**
03456 000 813

**SEFYDLIAD DPJ**
07860 048799 (testun yn unig)

**CRONFA ADDINGTON**
01926 620135

**TIR DEWI**
0800 1214722
mail@tirdewi.co.uk

**TÎM CYSYLLTWYR FFERM**
0300 0255449
ffarmliaisonservice@llyw.cymru

**SEFYDLIAD FUDDIANOL AMAETHYDDOL FRENHINOL (RABI)**
0800 188 4444
help@rabi.org.uk

**Y RHWYDWAITH CYMUNEDAU FFERM**
03000 111 999
help@fcn.org.uk

**CANOLFAN GYSWLLT CWSMERIAID TALIADAU GWLEDIG CYMRU**
0300 062 5004

**MIND CYMRU**
0300 123 3393
info@mind.org.uk

**SAMARITANS**
116 123
jo@samaritans.org